

ADFENT 2017

LLAWENYDD YR ADFENT Addewid, Paratoad, Gwahoddiad

Diolch i'r Golygydd am y gwahoddiad i fyfyrion uwchben tair adran o'r ysgrythur, gan ofyn am gael tynnu sylw at y llawenydd sydd ynddynt, a hynny yng nghyd-destun tymor yr Adfent.

Nefoedd a daear newydd – Eseia 65 ad 17-18

Mae'r proffwyd yn yr adnodau hyn yn sôn am 'anghofio'r treialon gynt', ac yn cyfeirio at Dduw 'yn creu nefoedd a daear newydd' gan addo y bydd 'Jerwsalem yn orfoledd a'i phobl yn llawenydd.' Disgrifir y byd dieithr hwn yn eithaf manwl yng ngweddill y bennod gyda'r cyfeiriad cyfarwydd at y 'blaidd a'r oen yn cyd-bori' ac ati. Yn ei lythyr at yr Effesiaid (1:10) gwnaeth yr Apostol Paul ragweld y bydd Duw 'yn dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, gan gynnwys popeth yn y nefoedd a'r ddaear.' Llawenhawn fod yr undod rhyfeddol hwn ynddo Ef.

Cyffes ac Edifeirwch – neges Ioan Fedyddiwr – Mathew 3 ad 1-10

Ymddengys mai bwriad Ioan Fedyddiwr oedd paratoi'r ffordd er mwyn i'r dyfodol hwn gael ei wireddu gyda'i bwylais ar yr angen i edifarhau gan fod teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Meddai Ioan, 'Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo.' (Eseia 40:3) Dywedir i drigolion Jerwsalem a Jwdea i gyd dyrru at Ioan i'w bedyddio ganddo yn yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau. Yn eu mysgr yr oedd y Phariseaid a'r Sadwceaid, y rhai a alwyd gan Ioan yn 'epil gwiberod'. A gawsant eu rhybuddio i ffoi rhag y digofaint oedd i ddod? Anogir hwy i ddwyn ffrwyth oedd yn deilwng o'u hedifeirwch.

Wedi ei ddyfodiad bydd y Meseia'n bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân. Ef yw'r un fydd yn casglu'r grawn i'r ysgubor, ond yn llosgi'r us â thân anniffoddadwy. Daw llawenydd i'r sawl sy'n edifarhau, ond gwae i'r sawl a wrthoda wneud hynny.



Ceisio'r Arglwydd – Eseia 55 ad 6-13

'Ceisiwch yr Arglwydd tra galler ei gael Ef, ...gadawed y drygionus ei ffordd... a dychwelyd at yr Arglwydd, ... iddo drugarhau....fe faddeua'n helaeth'.

Onid cri i ninnau gyffesu ein pechodau ac edifarhau amdanynt sydd yma, gan geisio Duw sydd yn ein Gwaredu trwy Iesu Grist?

Sut y mae ateb cwestiwn W. J. Bowyer yn ei englyn i'r Nadolig?

I gyntedd ein cyfeddach – a'n miri
Uwch môr o betheuach,
A ddaw rhyw ddrud funud fach
O gyrion gwlad ragorach?

Boed i ni geisio'r Arglwydd yr Adfent hwn gan brofi rhyw '...ddrud funud fach, o gyrion gwlad ragorach,' a hwnnw'n troi'n llawenydd i ni. Chwifio cerflun bychan o'r Crist croeshoeliedig o flaen llygaid carcharorion ac erail a wnaeth James Denney, gan ddweud, 'Fel hyn y mae Duw yn eich caru, edifarhewch a chredwch'.

Un peth yw cyffesu ein pechodau dirifedi fel unigolion a dynoliaeth, peth arall yw edifarhau, gan ddwyn ffrwyth sy'n deilwng o'n hedifeirwch. Ond edifarhau a cheisio'r Arglwydd a wna'r Nadolig yn un llawen i bawb, gan gynnwys y nef ei hun. (Luc 15:7).

Diolch i J. R. Jones, Aberystwyth am roi mynegiant i lawenydd y tymor hwn yn emyn,

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
A deued pawb ynghyd
I'w dderbyn a'i gydnabod ef
Yn Geidwad i'r holl fyd...

Ein nerth a'n gobaith oll bob awr
yw ei Efengyl ef,
Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
Hosanna iddo ef, ...

Caneuon Ffydd 479.

Parch Eric Jones, Bangor